



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Strwythur ar gyfer Fframweithiau Prentisiaeth Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 14 Hydref 2019
Gweithredu sy'n ofynnol: Ymatebion erbyn 9 Rhagfyr mis 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad yn holi barn pobl am strwythur Fframweithiau Prentisiaeth Cymru, ynghyd â'r llwybrau ategol

Sut i ymateb Dylech ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r holiadur yng nghefn y ddogfen ac e-bostio'r ddogfen yn ôl at Dfes-ApprenticeshipUnit@llyw.cymru.

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill drwy wneud cais.

Manylion cyswllt Am fwy o wybodaeth:

Yr Uned Brentisiaethau
Cyfeiriad: Llywodraeth Cymru
Tŷ Afon
Ffordd Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

e-bost: DfES-ApprenticeshipUnit@gov.wales

rhif ffôn: 03000 253815

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a gyflwynwch wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn, fel y medrant wneud penderfyniadau gwybodus am sut i ymarfer eu swyddogaethau cyhoeddus.

Bydd unrhyw ymateb yr anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru wrth ddelio â'r materion a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn a hefyd wrth gynllunio ymarferion ymgynghori ar gyfer y dyfodol. Lle mae Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ymhellach, bydd y gwaith hwn efallai'n cael ei gomisiynu i'w gyflawni gan drydydd parti achrededig (e.e. corff ymchwil neu gwmni ymgynghori). Bydd y gwaith ond yn cael ei wneud o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym iawn ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod ein bod wedi ymgynghori'n briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion, a hyd yn oed eu cyhoeddi'n llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich enw neu gyfeiriad, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn yna'n duo'r testun cyn cyhoeddi.

Cyn ymateb, dylech hefyd sicrhau y gwyddoch beth yw ein cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os cyhoeddir eich manylion fel rhan o adroddiad yr ymgynghoriad, cedwir yr adroddiadau cyhoeddedig hyn am amser amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru'n cael ei gadw am ddim mwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth ar ddiogelu data, mae gennych hawl i:

- gael gwybod am, a gweld, y data personol sy'n cael ei gadw amdanoch;
- gofyn i ni gywiro unrhyw wallau yn y data hwnnw;
- gwrthwynebu (mewn rhai amgylchiadau) i, neu gyfyngu ar brosesu eich data;
- gofyn (mewn rhai amgylchiadau) i ni 'ddileu' eich data;
- symud a defnyddio eich data (mewn rhai amgylchiadau);
- gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef y corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer diogelu data.

Am fanylion pellach am y wybodaeth a gedwir ac a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, neu os ydych eisiau ymarfer eich hawliau o dan y GDPR, wele'r manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data :
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Gaer
SK9 5AF

Rhif ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Y Rhagair

Fel rhan o'n Strategaeth Genedlaethol, rydym wedi adnabod bod gwella sgiliau'n un o'n prif flaenoriaethau. Rydym yn ail-greu'r tirlun sgiliau i helpu dysgwyr hen a newydd fel ei gilydd i ddod i hyd i gyfleoedd i ateb yr heriau a gyflwynir gan economi sy'n prysur newid.

Os yw hyn i lwyddo, mae prentisiaethau'n gwbl hanfodol. Ein prif ymrwymiad yw 100,000 o brentisiaeth dros dymor y Cynulliad hwn – ein targed *Ffyniant i Bawb*. Targed sy'n llwyr mewn llaw i ni ei gyrraedd. Ond nid mater o niferoedd yn unig yw hyn ond o gynyddu ein darpariaeth brentisiaethau i ddatblygu'r economi.

Mae prentisiaethau'n gwella sgiliau i ateb y galw yn y farchnad heddiw ac i ddod. Dyma sut y bwriadwn wella cynhyrchedd a ffyniant a chreu cymunedau mwy gwydn. Drwy greu system sgiliau fwy ymatebol, gallwn ymateb yn well i unrhyw newidiadau mewn diwydiant.

Mae sicrhau bod prentisiaethau yn cwrdd ag anghenion economi Cymru wrth galon ein polisi sgiliau a bwriadwn ddatblygu ein system sgiliau i ymateb yn fwy effeithiol i newidiadau mewn diwydiant.

Ein blaenoriaethau ar gyfer prentisiaethau yw:

- Buddsoddi mewn sgiliau lefel uwch, yn enwedig meysydd STEM a thechnegol;
- Gyrru cynhwysiant, cydraddoldeb a chyfle cyfartal;
- Ymateb i fylchau presennol a disgwylidig mewn sgiliau; a
- Darparu prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a / neu'n ddwyieithog.

Rydyn ni eisiau gwella ansawdd prentisiaethau drwy weithredu trefniadau newydd i ddatblygu, cyhoeddi a chodi ymwybyddiaeth o fframweithiau prentisiaeth er mwyn ateb anghenion unigolion a chyflogwyr fel ei gilydd.

Rydyn ni hefyd eisiau canolbwyntio mwy ar y nodau llesiant yn *Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol* gan sicrhau bod gan y genhedlaeth nesaf o brentisiaid fynediad at hyfforddiant proffesiynol o safon er mwyn gallu cystadlu yn erbyn y prentisiaid gorau mewn gwledydd eraill.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae system y DU ar brentisiaethau wedi newid yn sylweddol gyda nifer o swyddogaethau traws-DU wedi diflannu ar ôl dirwyn Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU i ben, gan gynnwys datblygu fframweithiau prentisiaeth.

Rydyn ni'n creu ein system i ymateb yn well i'r newidiadau mewn diwydiant ac fel bod Cymru mewn sefyllfa gryfach i ymdopi ag effaith globaleiddio, newidiadau technolegol ac ymateb i'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Gwnaethom ymgynghori'n ddiweddar ar rôl yr Awdurdod Cyhoeddi mewn cyhoeddi Fframweithiau Prentisiaeth yng Nghymru yn y dyfodol ac ai Gweinidogion Cymru a ddylai gyflawni'r rôl hon, ac os felly pa feini prawf i'w defnyddio ar gyfer cyhoeddi fframweithiau prentisiaeth i ateb anghenion yr economi, cyflogwyr a phrentisiaid. Diolch yn fawr i bawb a ymatebodd. Rydym yn ystyried yr ymatebion ar hyn o bryd a byddwn yn cyhoeddi adroddiad dros yr wythnosau nesaf.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cefnogi ein newidiadau ehangach i'r system drwy gynnig strwythur newydd a symlach ar gyfer fframweithiau prentisiaeth ar sail sectorau a llwybrau galwedigaethol clir er mwyn cryfhau ansawdd fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru, i'w cyrchu drwy lyfrgell fframweithiau prentisiaeth gweladwy ar gyfer Cymru.

Nid oedd erioed yn fwriad i'r rhaglen brentisiaethau fod yn rhaglen i'w defnyddio i lenwi pob bwlch sgiliau posib yn y farchnad. Mae angen i ni edrych ymlaen gan ystyried yr arferion gorau mewn rhaglenni prentisiaethau a'u darparu. Mae angen i ni ganolbwyntio o'r newydd ar grefftau technegol medrus a darparu hyfforddiant parhaus a sylweddol wedi'i gysylltu'n agos i alwedigaethau unigol. Bydd hyn yn ategu ein nod o sicrhau parch cydradd i addysg a hyfforddiant galwedigaethol, o wella ansawdd a chanlyniadau ar gyfer yr economi a phobl Cymru.

Bydd yr ymgynghoriad, a fydd yn para am wyth wythnos, yn holi barn pobl am sut i saernïo'r fframweithiau prentisiaeth ynghlwm wrth sectorau a llwybrau galwedigaethol. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb i helpu i lunio strwythur ar gyfer fframweithiau prentisiaeth yn y dyfodol a sicrhau ein bod yn parhau i wneud cynnydd rhagorol gyda'n gilydd mewn datblygu a darparu prentisiaethau o safon yng Nghymru.

Ken Skates
Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Pwrpas yr Ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn am strwythur fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, sydd wedi'u cysylltu â sectorau a llwybrau galwedigaethol er mwyn sicrhau bod y prosesau, y trefniadau llywodraethu a'r meini prawf ar gyfer datblygu fframweithiau prentisiaeth o ansawdd yn dryloyw, yn gyson ac yn addas i'r diben.

Y Cyd-destun Polisi

Yn 2017 fe wnaethom gyhoeddi ein polisi ar brentisiaethau "Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru." Rydyn ni'n datblygu ffyrdd newydd o weithio i helpu i wella ansawdd fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru drwy weithredu trefniadau newydd i ddatblygu a chyhoeddi fframweithiau er mwyn ateb anghenion unigolion a chyflogwyr fel ei gilydd.

Mae ein polisi'n nodi'n glir ein bod eisiau i'r rhaglen sicrhau bod prentisiaethau'n helpu pobl ifanc ac y bydd ein ffocws ar wella ein darpariaeth ar draws y gwahanol feysydd technegol a phroffesiynol, yn enwedig meysydd STEM, ac y bydd y rhaglen yn cynnwys mwy o hyfforddiant lefel uwch. Dywedodd llawer o gyflogwyr wrthym fod angen sicrhau bod pob prentisiaeth yn darparu cwricwlwm dysgu a sgiliau sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol gan eu defnyddio fel cyfrwng i gefnogi'r proffesiynau newydd a fydd yn deillio o'r newidiadau mawr a ddaw yn ysgil yr oes ddigidol. Bron yn sicr, bydd angen sicrhau bod prentisiaethau'n darparu hyfforddiant parhaus a sylweddol wedi'i integreiddio'n llawn ac agos â'r profiad o ddysgu mewn cyd-destun swydd a galwedigaeth gysylltiedig.

Beth yw'r prif broblemau?

Yn draddodiadol roedd ffocws prentisiaethau ar alwedigaethau lle'r oedd angen i bobl ennill y sgiliau a'r wybodaeth i ddod yn broffesiynol gymwys a chymwysedig i ymarfer. Yn y blynyddoedd diwethaf mae rhai prentisiaethau wedi colli'r ffocws hwn o blaid diffiniadau galwedigaethol mwy cyffredinol. Er enghraifft, mae yna fframweithiau bellach ar gyfer gweinyddu busnes, gwasanaeth cwsmeriaid ac arwain tîm. Gall diffyg ffocws galwedigaethol lastwreiddio gwerth prentisiaeth.

Byddai system lle'r oedd ffocws prentisiaethau ar rolau galwedigaethol yn golygu y gallai unigolion ennill lefel o arbenigedd y byddai eraill yn ei barchu ac yn rhoi sicrwydd i gyflogwyr bod yr unigolion hynny'n alwedigaethol gymwys ar ddiwedd eu prentisiaeth. Byddai hefyd yn cynyddu gwerth a pharch at brentisiaeth fel llwybr addysgol amgen.

Roedd adroddiad yr Athro Ellen Hazelkorn: "Tuag at 2030 – fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru"¹ yn nodi "*diffyg llwybrau dysgu cydlynol a chyfluoedd addysgol i fyfyrwyr, o bob oedran, rhyw a thalent, o'r ysgol, i/drwy addysg bellach ac addysg uwch*".

¹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/tuag-at-2030-fframwaith-ar-gyfer-datblygu-system-addysg-ol-orfodol-or-radd-flaenaf-i-gymru.pdf>

Ar hyn o bryd mae dros 200 o fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru (rhai ar lefelau lluosog), wedi eu cysylltu i un o 28 o'r sectorau galwedigaethol a restrir yng Ngorchymyn Sectorau Prentisiaeth (Manyleb) 2011², a wnaed o dan adran 38(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (ASCL) 2009. I ddarllen y fframweithiau hyn, ewch i *Fframweithiau Prentisiaeth Ar-lein*³. Mae pob fframwaith yn cyflwyno pecyn dysgu cwbl ar wahân.

Mae'r galw am brentisiaethau'n newid wrth i gyflogwyr chwilio am sgiliau ar lefel uwch ac wrth i bobl ifanc edrych ar brentisiaethau fel dewis credadwy a chydabyddedig yn lle addysg israddedig llawn amser, traddodiadol. Mae prentisiaethau erbyn heddiw'n ymestyn i'r proffesiynau gan roi cyfle i godi statws a chynyddu parch at y rhaglen ar gyfer cenedlaeth newydd. Ar yr un pryd mae tuedd i ddosbarthu rhaglenni hyfforddiant sy'n cael eu hariannu gan y cyflogwr fel prentisiaethau, wedi'i yrru'n bennaf gan alw gan gyflogwyr sy'n talu'r lefi. Yn ddiodyn bron, mae prentisiaethau'n cael eu cyplysu'n gynyddol â sgiliau gweithlu ehangach yn hytrach na sgiliau cryf sy'n bennaf berthnasol i alwedigaethau. Yn erbyn y cefndir hwn mae angen creu system ymatebol, gyson a llai cymhleth sy'n gallu addasu i wahanol ofynion economaidd a chymdeithasol ac y gellir ei saernio i ymateb i heriau sgiliau fel y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd gan sicrhau bod y rhaglen yn berthnasol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Lle'r ydym erbyn hyn?

Rydyn ni'n parhau i adolygu'r trefniadau ar gyfer comisiynu, datblygu a chyhoeddi fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru er mwyn cefnogi economi'r wlad. Gwnaethom ymgynghori'n ddiweddar ar rôl yr Awdurdod Cyhoeddi yng Nghymru ac a ddylai Gweinidogion Cymru gyflawni'r rôl hon, ac os felly pa feini prawf i'w defnyddio ar gyfer cyhoeddi fframweithiau prentisiaeth i ateb anghenion yr economi, cyflogwyr a phrentisiaid⁴. Rydym yn ystyried yr ymatebion ar hyn o bryd a byddwn yn cyhoeddi adroddiad a'r camau nesaf dros y misoedd nesaf.

Y galw gan gyflogwyr a'r economi ynghyd â gwella mynediad, cydraddoldeb a chyfle cyfartal i wneud sgiliau a chymwyseddau'n haws eu trosglwyddo ar draws Cymru, fydd yn sail i'r penderfyniadau a wneir i ddatblygu'r fframweithiau hyn.

Rhaid i bob fframwaith a gomisiynir gwrdd ag anghenion economi Cymru fel y cawsant eu hadnabod gan y dystiolaeth gadarn o'r farchnad lafur a'r gefnogaeth gan gyflogwyr ynghyd ag ateb gofynion sicrhau ansawdd gan gynnwys llwybrau datblygu, mynediad cyfartal a theg ac o ran bod yn gydradd a chyfnewidiol â phrentisiaethau yng ngwledydd eraill y DU; a chefnogi'r cyfeiriad polisi cyffredinol ar brentisiaethau⁵.

Sefydlwyd Bwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru (WAAB) i roi cyngor a gwneud argymhellion ar y fframweithiau prentisiaeth sydd mewn golwg, gan gynnwys

² http://www.legislation.gov.uk/uksi/2011/220/pdfs/uksi_20110220_en.pdf

³ <http://www.afo.sscalliance.org/cymraeg>

⁴ <https://llyw.cymru/rol-yr-awdurdod-cyhoeddi-o-ran-fframweithiau-prentisiaeth>

⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cysoni%E2%80%99r-model-prentisiaethau-ag-anghenion-economi-cymru.pdf>

symleiddio'r strwythur ar gyfer sectorau a llwybrau galwedigaethol ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru.

Rydym yn cyflwyno trefniadau newydd i wella'r broses ddatblygu ar gyfer datblygwyr y fframweithiau, sy'n cynnwys pedwar cam:

- cynhyrchu cynllun prosiect;
- ymgynghori â rhanddeiliaid (i gynnwys cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, cyrff sector a chyrff dyfarnu) i gynhyrchu adroddiad tystiolaeth gan rhanddeiliaid;
- cynhyrchu fframwaith drafft i'w asesu ar gyfer sicrhau ansawdd gan arbenigwr technegol annibynnol;
- cynhyrchu fframwaith terfynol i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cyhoeddi.

Bydd y trefniadau tryloyw a chadarn hyn yn sicrhau y datblygir pob fframwaith newydd, cyn eu cyhoeddi, drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol gan gwrdd ag anghenion yr economi.

Bwriadwn hefyd wneud y seilwaith i ategu'r rhaglen brentisiaethau'n fwy gweladwy, drwy lwyfan TGCh newydd ar gyfer gwasanaethau, gan gynnwys:

- gwasanaeth prentisiaethau gwag canolog i Gymru fel bod cyflogwyr yn gallu hysbysebu eu cyfleoedd prentisiaeth;
- proffiliau cyflogwyr i ddangos y ddarpariaeth bresennol yng Nghymru a pha gyfleoedd sydd ar gael, ynghyd â'r rhai fydd ar gael drwy'r gwasanaeth hysbysebu prentisiaethau ar unrhyw adeg;
- llyfrgell fframweithiau fel bod defnyddwyr yn gallu chwilio drwy'r basdata o fframweithiau prentisiaeth a dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant;
- ardal ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth strategol allweddol.

Y dystiolaeth dros newid

Fel y dywedwn yn y ddogfen ymgynghori hon, mae angen sicrhau bod y fframweithiau prentisiaeth sy'n cael eu datblygu a'u cyhoeddi'n cwrdd ag anghenion yr economi, cyflogwyr ac unigolion drwy ddarparu'n glir ar sail anghenion galwedigaeth.

Ar hyn o bryd mae dros 22 o fframweithiau, y rhan fwyaf wedi eu datblygu gan y Cynghorau Sgiliau Sector a chyrff sector, ar sail tystiolaeth a chais traws-DU i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau. Nid yw'r fframweithiau hyn wedi'u datblygu fel rhan o strategaeth gyffredinol ac ers tair blynedd ni chafodd yr un brentisiaeth newydd ei dechrau gan dros draean ohonynt.

Oherwydd newidiadau i economi Cymru mae nifer o'r fframweithiau bellach wedi dyddio ac yn anaddas i'w pwrpas. Mae gennym bryderon, wrth i nifer y cymwysterau yn y fframweithiau gynyddu, bod prentisiaid efallai'n cyflawni cymwysterau sy'n gofyn llai ohonynt mewn rhai sectorau. Mae Cymwysterau Cymru'n cyflawni cyfres o adolygiadau sector fydd yn helpu i oleuo ein cynlluniau i adolygu cynnwys y fframweithiau prentisiaeth.

Dylid ond datblygu fframweithiau prentisiaeth lle mae galw cryf amdanynt a lle mae'r alwedigaeth / swydd ar gyfer y brentisiaeth yn cyfateb i'r anghenion sgiliau presennol neu i ddod. Bydd hyn yn cadw'r brentisiaeth yn gredadwy ac uchel ei pharch ar draws y diwydiant neu'r sector, gan hefyd roi gwerth mwy hirdymor iddi. Mae adran 31 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 yn diffinio cymwyseddau galwedigaethol perthnasol fel "y cymwyseddau sydd eu hangen i gyflawni'r sgil, crefft neu alwedigaeth y mae'r fframwaith yn berthnasol iddynt ar y lefel sy'n ofynnol yn y fframwaith".

Y Cynigion

Wrth gydnabod y materion a godir yn yr ymgynghoriad, bwriadwn weithredu strwythur diwygiedig a llai cymhleth o 23 o fframweithiau prentisiaeth lefel uchel, wedi eu hategu gan 72 o lwybrau galwedigaethol.

Cysylltir pob sector galwedigaethol a llwybr ategol i alwedigaeth, crefft neu fasnach benodol a fydd, yn ein barn ni, yn cryfhau ansawdd a thrylwyrdd y fframweithiau ac yn eu gwneud yn fwy perthnasol. Credwn fod y fframweithiau hyn yn adlewyrchu strwythur economi Cymru'n well gan gynnig ystod glir o lwybrau galwedigaethol yn y sectorau.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae rhai fframweithiau prentisiaeth wedi colli eu ffocws ar alwedigaethau penodol o blaid diffiniadau galwedigaethol mwy cyffredinol. Cynigiwn wneud i ffwrdd â fframweithiau mwy cyffredinol gan ddisgwyl y bydd hyn yn cynyddu gwerth a pharch at brentisiaeth fel llwybr addysgol amgen. Dymunwn ddeall effaith targedu arian y llywodraeth at brentisiaethau'n gysylltiedig â galwedigaethau penodol a byddem yn falch iawn o dderbyn barn ein rhanddeiliaid.

Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn helpu i ddatblygu trefniadau newydd i sicrhau bod y saernïaeth ategol ar gyfer fframweithiau a llwybrau prentisiaeth yn glir, hwylus ac yn ateb anghenion presennol economi Cymru a'r anghenion i ddod yn well. Bwriadwn hefyd adolygu pob un o'r fframweithiau'n fwy rheolaidd, gan flaenoriaethu yn ôl ffactorau fel y galw gan economi a chyflogwyr Cymru, newidiadau i gymwysterau a / neu adolygiadau sector gan gorff Cymwysterau Cymru; gwybodaeth marchnad lafur (LMI), polisiâu newydd gan adrannau eraill Llywodraeth Cymru ac yn anad dim yn ôl y cyngor gan Fwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru. O ran amserlen bwriadwn adolygu'r holl fframweithiau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru dros gylch o dair blynedd.

Er mwyn gallu ymateb yn gynt i'r galw am sgiliau yn economi Cymru, bwriadwn hefyd gyflwyno system y gall rhanddeiliaid/cyflogwyr ei defnyddio i ofyn am fframweithiau a llwybrau newydd neu ddiwygiedig y tu allan i'r cylch adolygu sydd mewn golwg.

Ein cynigion yw:

- Cryfhau ansawdd fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru drwy weithredu strwythur newydd a llai cymhleth ar gyfer fframweithiau prentisiaeth;
- Canolbwyntio'r ymdrechion i ddatblygu fframweithiau prentisiaeth yn y dyfodol ar lwybrau galwedigaethol, wedi eu cysylltu i sectorau galwedigaethol; a

- Adolygu a gwneud i ffwrdd â fframweithiau na chawsant eu defnyddio yn y blynyddoedd diwethaf ac nad ydynt yn gyson â sectorau galwedigaethol neu anghenion economi Cymru.

Mae Atodiad 1 yn cyflwyno'r strwythur arfaethedig o 23 o sectorau galwedigaethol a'r 72 o lwybrau galwedigaethol ategol ar gyfer y sectorau.

Mae Atodiad 2 yn cymharu'r sectorau a'r llwybrau galwedigaethol arfaethedig â'r y '*T-level routes and pathways*' sydd wedi eu mabwysiadu yn Lloegr; ac yn rhoi rhestr o'r fframweithiau presennol a nifer y prentisiaethau a ddechreuodd dros y tair blynedd academaidd rhwng 2015/16 a 2017/18.

Bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn goleuo saernïaeth y prentisiaethau yng Nghymru ymhellach i sicrhau bod ansawdd, prosesau, trefniadau llywodraethu a meini prawf y gwaith o ddatblygu fframwaith prentisiaeth yn dryloyw, cyson ac addas i'r pwrpas.

Atodiad 1 – Sectorau a Llwybrau Galwedigaethol Arfaethedig

Sector Galwedigaethol	Llwybr(au)
1. Diwylliant, Dylunio a'r Cyfryngau	Crefft a Dylunio
	Treftadaeth Ddiwylliannol
	Y Cyfryngau
2. Modurol, Trafnidiaeth a Logisteg	Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau
	Gyrru Cerbydau
	Logisteg
3. Busnes a Rheoli	Cychwyn Busnes, Marchnata a Thwf
	Rheoli Busnes
	Gwasanaeth Cwsmeriaid
4. Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd	Amaethyddiaeth,
	Rheoli, Cynhyrchu a Pheirianeg yn ymwneud â Thir
	Rheoli a Gofal Anifeiliaid
5. Gwasanaethau Adeiladu ac Adeiladau	Dylunio, Tirfesur, Cynllunio a Rheoli
	Adeiladu Ar-y-safle
	Adeiladu Peirianyddol
	Gwasanaethau Trydanol ac Electronig
	Plymio a Gwresogi
6. Gwasanaethau Eiddo	Eiddo a Thai
	Rheoli a Glanhau Cyfleusterau
7. Gwyddorau Bywyd	Gwasanaethau Labordy
	Gwyddorau Bywyd Eraill

Sector Galwedigaethol	Llwybrau
8. Peirianeg	Mecanyddol
	Cemegol
	Cynnal a Chadw
	Trydanol
	Awyrofod
	Rheilffyrdd
	Sifil
	Petroleum
9. Uwch-Weithgynhyrchu ac Uwch-Ddeunyddiau	Gweithgynhyrchu
	Proses
	Deunyddiau
	Rheoli
10. Ynni	Nwy
	Dŵr
	Trydan
	Ynni Cynaliadwy ac Adnewyddadwy
	Rheoli Ynni
11. Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol	Gwasanaethau Ariannol
	Gwasanaethau Cyfreithiol
	Gwasanaethau Yswiriant
12. Bwyd a Diod	Cynhyrchu Bwyd a Diod
13. Arlwyo a Lletygarwch	Arlwyo
	Lletygarwch

14. Technoleg Ddigidol	Seiber
	Meddalwedd
	Dadansoddeg
15. Manwerthu	Manwerthu
	Rheoli Manwerthu
16. Teithio, Twristiaeth a Hamdden	Chwaraeon
	Hamdden
	Teithio
	Twristiaeth
17. Gwallt a Harddwch	Trin Gwallt a Gwasanaethau Barbwr
	Gwasanaethau Harddwch
18. Gwasanaethau Gofal Iechyd	Cymorth Gofal Iechyd
	Gwyddor Gofal Iechyd
	Clinigol
	Deintyddol
	Ambiwlans
	Therapiau
	Fferyllfeydd
19. Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol	Gofal Cymdeithasol
20. Gwasanaethau Gofal Plant	Gofal Plant
	Rheoli Gofal Plant
	Gwaith Chwarae
21. Addysg a Gwasanaethau Gwybodaeth	Addysg
	Rheoli Gwybodaeth

22. Gwasanaethau Cyhoeddus	Tân ac Achub
	Yr Heddlu
	Gwasanaethau Cyhoeddus Eraill
23. Gwasanaethau Gwarchod	Diogelwch